**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Mawrth 2016**

**DIRPRWYO PWERAU I'R PRIF SWYDDOG TÂN**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cadarnhau'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân.

## Cefndir

2 Caiff pwerau swyddogion eu dirprwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae dirprwyo pwerau'n digwydd pan fo'r Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun. Mae Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r pŵer i ddirprwyo.

## Gwybodaeth

3 Cytunwyd ar y cynllun dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân yn 1996, pan ddaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i fodolaeth. Yna, cafodd ei adolygu yn Hydref 2003, Ebrill a Gorffennaf 2004, Mehefin 2005 ac yn 2006. Er hynny, ni fu fawr o angen amrywio'r pwerau hynny. Ond llywodraethu da yw ei adolygu'n rheolaidd.

4 Fel egwyddor cyffredinol, dylai'r Prif Swyddog Tân gael cyfrifoldeb cyffredinol am yr holl faterion gweithredol a gwneud yr holl benderfyniadau yn unol â pholisïau a strategaethau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub, gan gynnwys y Cynllun Gwella.

5 Bydd angen i'r Aelodau wneud eu rhan mewn penderfyniadau am weithrediadau unigol mewn amgylchiadau cyfyngedig fel:

- penodiadau uwch
- penderfyniadau sydd angen cyllid ychwanegol ac na ellir eu hymgorffori o fewn cyllidebau presennol
- penderfyniadau sy'n debygol o fod yn destun dadl arwyddocaol, yn wleidyddol a chyhoeddus, megis cau gorsaf dân.

6 Mae'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân wedi adolygu'r cynllun dirprwyo presennol, a lle bo angen maent wedi diweddaru'r ddogfen honno. Yn atodedig i'r papur hwn yn Atodiad 1, mae cynllun dirprwyo wedi'i ddiwygio. Ar 8 Chwefror bu i'r Panel Gweithredol ystyried a chymeradwyo'r cynllun dirprwyo diwygiedig (atodiad 1) ac mae'r Aelodau'n ei argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub.

**Argymhelliad**

7 Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynllun dirprwyo pwerau.

## Cynllun Dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi dirprwyo ei bwerau i gymryd penderfyniadau yn y meysydd a restrir isod i'r Prif Swyddog Tân i gymryd unrhyw benderfyniadau o'r fath ar ei ran:

1. Gall y Prif Swyddog Tân ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i aelod o staff o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a gall drefnu i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan weithwyr o awdurdodau lleol eraill (gan gynnwys gweithwyr awdurdodau tân ac achub eraill).

2. Gweithredu pwerau atodol dan adran 5, Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ar wahân i benodi aelodau etholedig i gyrff allanol megis Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3. Yn unol â'r Cynllun Cyfunol Lleihau Risg a Gwella ac unrhyw bolisïau sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub, penderfyniadau ar gyflawni swyddogaethau'r awdurdod tân ac achub dan adrannau 6 i 12 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

4. Gwneud, amrywio neu ddiddymu unrhyw drefniadau gyda phersonau eraill yn unol ag adrannau 13 i 17 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

5. Penderfyniadau ar godi tâl dan adran 19 Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, yn unol â pholisi'r Awdurdod ar godi tâl.

6. Penderfyniadau ar weithredu pwerau ar neu o dan y môr dan adran 20 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

7. I'r graddau nad ydynt eisoes wedi'u cwmpasu yn yr uchod: penderfyniadau am y defnydd gweithredol o staff, cyfarpar a'r defnydd o adeiladau yn unol â'r Cynllun Cyfunol Lleihau Risg a Gwella. Nid yw'r ddirprwyaeth hon yn cynnwys y pŵer i gau gorsaf dân os nad yw hynny'n benodol wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun neu wedi bod yn destun penderfyniad gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

8. Cytundebau ayyb. mewn perthynas â chyflenwad dŵr dan rhan 5 Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

9. Gweithredu pwerau archwilio, gorfodi, cynghorol ac ymgynghorol o ran atal tân. Mae'r ddirprwyaeth hon yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i swyddogaethau'r Awdurdod Tân ac Achub dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ayyb 1974 a'r rheoliadau a wnaed dani, Deddf Adeiladu 1984, Deddf Tai 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Deddf Drwyddedu 2003, Deddf Hapchwarae 2005, Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 a'r Ddeddf Diogelwch Tân a Diogelwch Llefydd Chwaraeon 1987.

10. Y cyfrifoldeb am greu polisi sy'n cymryd ystyriaeth o'r newidiadau deddfwriaethol i'r cynllun pensiwn, i ailgyflogi staff wedi iddynt ymddeol.

11. Yn unol â'r polisïau mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu mabwysiadu ar hyn o bryd, y penderfyniadau ar yr holl faterion personél ar gyfer gweithwyr yr Awdurdod gan gynnwys penodiadau, disgyblu, apeliadau, caniatâd dan adrannau 45 i 46 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, seibiannau ac ati.

Nid yw'r ddirprwyaeth hon yn berthnasol i:

(1) benodi'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol;
(2) achosion disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog Tân neu faterion cyflog neu bensiwn yn ymwneud â'r Prif Swyddog Tân;
(3) bod yn banel apêl dan y gweithdrefnau disgyblu, cwyn a galluogrwydd lle rhoddir y swyddogaeth honno i'r Awdurdod Tân ac Achub;
(4) penderfyniadau ar ddefnyddio pwerau dewisol dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) neu Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
(5) i'r graddau nad yw (1) i (4) yn ymorol amdano, unrhyw benderfyniad lle mae angen cyfraniad aelodau dan ddeddfwriaeth neu unrhyw gytundebau cenedlaethol neu leol perthnasol.